
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Coedydd Aber
National Nature Reserve

# Rhaeadr Fawr / Aber Falls




© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Ebrill 2019 © Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – April 2019

## Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber

Mae'r warchodfa hon yn enwog am y 'Rhaeadr Fawr', sy'n gwagio o lwyfandir uchel mynyddoedd y Carneddau. O'i tharddiad i'w haber, hon yw un o'r afonydd serthaf yng Nghymru a Lloegr. Mae cyfuniad o hinsawdd, daeareg a gweithgareddau pobl drwy'r oesoedd wedi gwneud y dyffryn hwn yn le unigryw.

### Treftadaeth goediog gyfoethog

Coetir brodorol tir uchel sy'n cynnwys derw, ynn a gwern yw mwy na hanner y warchodfa 169 hectar hon (mae un hectar oddeutu'r un maint â chae rygbi). Ers canrifoedd, mae'r coetir hwn yn gartref i gennau prin ac amrywiaeth eang o adar.

### Afon a chanddi dri enw?

Uwchben y rhaeadr mae'n cychwyn fel 'Afon Goch', yna ceir 'Afon Rhaeadr Fawr' wrth iddi ymdreiglo i lawr y dyffryn, ac yn olaf ceir 'Afon Aber' lle mae'n llifo heibio i'r pentref ac i'r môr. Mae'n debyg mai'r cocos niferus a roddodd ei enw i bentref Abergwyngregyn.

## Welcome to Coedydd Aber National Nature Reserve (NNR)

This reserve is famous for its waterfall, 'Rhaeadr Fawr', which drains the high Carneddau mountains plateau. The river catchment, from its source to sea is one of the steepest in England and Wales. A combination of climate, geology and human activity through the ages has made this valley a unique place.


### A rich woodland heritage

More than half of the 169 hectare reserve (one hectare is about the size of a rugby pitch) is upland native woodland of oak, ash and alder. This has provided a home for rare lichens and a wide variety of birds for centuries.

### A river with three names?

Above the waterfall it starts as 'Afon Goch' (red river), then 'Afon Rhaeadr Fawr' (big waterfall river) as it tumbles down into the valley, and finally 'Afon Aber' (river mouth) where it flows past the village to the sea. The plentiful cockles probably gave the village its name, 'Abergwyngregyn'.

## Llwybr Rhaeadr Fawr | Aber Falls Walk




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi Hawlfraint y Goron. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019. Arolwg Ordnans 100019741 This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright and database rights 2019. Ordnance Survey 100019741

### Llwybr **Rhaeadr Fawr** / **Aber Falls** Walk

Dilynwch yr arwyddbyst melyn

Follow the yellow waymarker symbol

**Rhwydd**
Pellter: 2¾ milltir/4.5km (yno ac yn ôl)
Amser : 1½ awr (yno ac yn ôl)

**Easy**
Distance: 2¾ mile/4.5km (total there and back)
Time: 1½ hours (total there and back)

**UCHAFBWYNTIAU: Dilynwch y prif lwybr drwy'r coetir hynafol ac ar hyd y dyffryn hyd nes y cyrhaeddwch y Rhaeadr Fawr ysblennydd.**

**Gall mynediad drwy'r coed fod yn gul, gyda mwd a chreigiau mewn mannau. Er mwyn osgoi'r rhannau hyn o'r llwybr, dilynwch yr arwyddion ar gyfer y prif lwybr ar hyd y ffordd fynediad – ceir ambell lecyn serth ac anwastad, ond mae'n llwybr llydan a chanddo wyneb da.**

**HIGHLIGHTS: Follow the main trail through ancient woodland and along the valley to the spectacular Rhaeadr Fawr waterfall.**

**Access through the woods can be narrow with occasional mud and rocks. To avoid these sections follow the signs to the main track along the access road which does contain some steeper and uneven sections but is wide and well surfaced.**

## Beth allwch chi ei wneud o'r fan yma?

Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn awyddus i weld y rhaeadr - ond cofiwch wneud y mwyaf o harddwch y dyffryn, y bywyd gwyllt a'r nodweddion hanesyddol ar hyd y ffordd

O'r fan yma dilynwch y llwybr o'ch blaen. Mae yna lwybr rhwyddach ar gyfer cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn trydan sy'n cysylltu â'r prif lwybr drwy groesi'r bont a chymryd y troad nesaf i'r dde. Mae'r llwybr ar arwyneb caled yn bennaf, sy'n eithaf serth a mwdlyd mewn mannau.

## What can you do from here?

Most visitors want to experience the waterfall – but do take in the beauty of the valley, its wildlife and historic features along your way.

From here follow the trail ahead. There is an easier route for pushchairs and power chairs which links into the main trail by crossing the bridge and taking your next right. The path is on a mainly hard surface, which is quite steep and muddy in places.

Dilynwch y stori
Follow the story
www.cadw.gov.wales

## Dilyn yn ôl troed tywysogion

Mae'r Rhaeadr Fawr ddramatig wedi bod yn gefndir i fywyd yn y dyffryn ers cyn cof ac arferai'r ardal fod yn un o gadarnleoedd tywysogion Gwynedd. Chwiliwch am gylchoedd cutiau o'r Oes Haearn, beddi o'r Oes Efydd ac olion canoloesol ar hyd y llwybr sy'n arwain at y rhaeadr.

### Cennau di-rif

Mae amrywiaeth enfawr o gennau o bob lliw yn ffynnu yn yr awyr lân a llaith ac yn gorchuddio'r coed hynafol.

### Adar o Affrica sy'n ymweld â'r coedydd derw yn ystod yr haf

Mae coedydd derw tir uchel hynafol yn berffaith i adar o Affrica sy'n ymweld â'r ardal yn ystod yr haf, fel telor y coed, y gwybedog brith a'r tingoch.

## In the footsteps of princes

The dramatic waterfall, 'Rhaeadr Fawr', has been the backdrop to life in the valley since ancient times and the area was one of the strongholds for the princes of Gwynedd. Look out for Iron Age hut circles, Bronze Age graves and medieval remains along the route to the waterfall.

### Lichens galore

There is a huge variety of multi-coloured lichens, thriving in the clean damp air, cloaking the ancient woodland trees.

### Upland Oakwoods summer visitors from Africa


Ancient upland oak woodlands provide the perfect conditions for summer visitors from Africa like the wood warbler, pied flycatcher and redstart.





Chwiliwch am lewyrch metelaidd dwl y cen *Digelia plumbea*, sef yr enw Lladin am blwm.

Look out for the dull metallic sheen of the *Digelia plumbea* lichen which is Latin for lead.



Cen gwyrdd a brown tebyg i ysgyfaint yw *Lobaria pulmonaria*, neu 'llysiau'r ysgyfaint' fel y'i gelwir.

*Lobaria pulmonaria* or lungwort is a lung-like green and brown lichen.



**Telor y coed**: gwrandewch am ei alwad nodweddiadol, fel darn arian yn cael ei droi ar fwrdd, gyda chyflymder yr alwad yn cyflymu cyn tawelu..

**Wood warbler**: listen for its distinctive sound like a coin being spun on a table, its tempo increasing before dying away.



**Gwybedog brith**: cadwch lygad am yr aderyn du a gwyn trawiadol hwn sy'n nythu mewn tyllau yn yr hen goed (ac mewn blychau nythu), ac sy'n bwydo'i gywion â phryfed.

**Pied flycatcher**: look out for this striking black and white bird which breeds in holes in the old trees (and nestboxes), feeding its young with flies.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol hon; rhannau o gefn gwlad lle mae enghreifftiau arbennig o gynefinoedd a bywyd gwyllt Prydain wedi'u gwarchod.

Natural Resources Wales manages this National Nature Reserve (NNR); areas of the countryside where special examples of Britain's habitats and wildlife are protected.

parcio / parking
gwybodaeth / information
hygyrchu / accessible
toiledau / toilets
llwybrau cerdded / walking trails
lle picnic / picnic area
Ffinn y warchodfa GNG / NNR reserve boundary
llwybr caniataol / permissive path
Llwybr y Gogledd / North Wales Path

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

5053.0119.DUR